# <u>Adroddiad: Taith i Frwsel</u>

## <u>Dyddiadau: 06/08/2023 / 07/08/2023</u>

**<u>Diben:</u>** Nod y daith hon oedd hyrwyddo'r achos dros ddarparu mwy o gymorth i ffermwyr ifanc yn y DU, a thrafod polisi amaethyddol yng nghyd-destun Brexit.

### <u>Cyfarfodydd:</u>

**Cyfarfod Brecwast gyda'r grŵp ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth a thwf yn yr economi (SAGE)**: Cynhaliwyd cyfarfod brecwast gyda chynrychiolwyr o'r grŵp ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth a thwf yn yr economi (SAGE), a hynny er mwyn trafod y posibilrwydd o gynyddu'r taliadau a ddyrennir i ffermwyr ifanc, o 2 y cant i 3 y cant o'r cyllid a ddarperir drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC). Mae'r cynnydd hwn yn hanfodol o ran cefnogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r sector amaethyddol yn y DU. Byddwn yn cyflwyno'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r cyfarfod hwn i'r Senedd er mwyn cryfhau ein hachos.

**Cyfarfod unigol ag Isabel Carvalhais (ASE)**: Cynhaliwyd cyfarfod unigol â Ms Isabel Carvalhais, Aelod o Senedd Ewrop (ASE), sy'n rhan o Grŵp y Sosialwyr a'r Democratiaid. Mae'n debyg bod y cyfarfod wedi canolbwyntio ar y taliadau a wneir i ffermwyr ifanc, a'u pwysigrwydd i ddyfodol amaethyddol Cymru a'r DU.

**Cinio Bord Gron gydag Aelodau o Senedd Ewrop sy'n rhan o Blaid Ewropeaidd y Bobl (EPP) a'r Sector Diwydiant**: Cynhaliwyd trafodaeth bord gron gydag Aelodau o Senedd Ewrop sy'n rhan o Blaid Ewropeaidd y Bobl (EPP), ochr yn ochr â chynrychiolwyr o'r sector diwydiant amaethyddol. Mae'n debyg mai'r prif bynciau oedd, ymhlith eraill, yr heriau a wynebir gan bobl ifanc mewn cymunedau gwledig, iechyd meddwl yn y sector amaethyddol, ac effaith bosibl Brexit ar y materion hyn.

**Cyfarfod ag Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)**: Cefais gyfarfod penodol gyda chynrychiolwyr o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) ym Mrwsel er mwyn trafod datblygiadau parhaus o ran polisi amaethyddol Ewrop, a'u goblygiadau posibl i sector ffermio'r DU ar ôl Brexit.

**Ymweliad â Senedd Fflandrys:** Roedd y diwrnod olaf yn cynnwys ymweliad â Senedd Fflandrys. Cafwyd cyfle i arsylwi sesiwn, a rhoddodd hynny brofiad uniongyrchol o'r broses ddeddfwriaethol a'r strwythurau democrataidd yn Fflandrys. Yn sgil yr ymweliad hwn, cafwyd mewnwelediadau gwerthfawr a allai lywio trafodaethau ar lywodraethu a pholisi amaethyddol yn y DU.

### <u>Casgliad:</u>

Bu'r daith hon i Frwsel yn hynod lwyddiannus o ran codi ymwybyddiaeth o'r materion hollbwysig sy'n wynebu ffermwyr ifanc a chymunedau gwledig yn y DU. Drwy ymgysylltu â llunwyr polisi ac arweinwyr diwydiant, cafwyd llwyfan i gyflwyno'r achos dros newid a sicrhau gwybodaeth werthfawr i'w rhannu â'r Senedd. Bydd y wybodaeth a'r cysylltiadau a gronnwyd yn llywio ymdrechion yn y dyfodol i gefnogi sector gwledig ffyniannus yn y DU.